Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Y Ffin

Sandy Lane
Cil-y-Coed
Sir Fynwy
NP26 4NQ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Y Ffin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Y Ffin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 157 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 102 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 29 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 14.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/06/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](Fy Ysgol Leol (gov.wales))

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Y Ffin yn gymuned deuluol sy’n darparu amgylchedd gynhwysol a gofalgar. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos aeddfedrwydd a pharch tuag at ei gilydd. Mae trefniadau’r ysgol i hybu presenoldeb yn gadarn ac yn effeithiol.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol sy’n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Gyda chymorth effeithiol y dirprwy a’r tîm arwain, mae’r staff yn cydweithio’n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn ogystal â medrau eraill. Er hyn, nid yw’r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso’u medrau ysgrifennu estynedig yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn meithrin dysgwyr annibynnol a hyderus o oedran cynnar, gan ddefnyddio profiadau cyfoethog i feithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd. Mae’r cwricwlwm yn eang, perthnasol, ac wedi’i wreiddio mewn gweithgareddau dysgu ystyrlon sy’n adeiladu ar lawer o fedrau yn llwyddiannus. Mae dull ysgol gyfan o ddatblygu creadigrwydd yn gryf iawn, gyda gweithgareddau ar draws y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso medrau ehangach.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae disgyblion yn dylanwadu ar ddylunio’r cwricwlwm yn effeithiol, ond cyfyng yw’r cyfleoedd i bwyllgorau disgyblion gyfrannu’n ehangach i fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gwybod beth sy’n gweithio’n dda a beth sydd angen ei wella. Maent yn rhoi trefniadau llwyddiannus iawn ar waith i wella’r agweddau hynny. Mae llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinwyr yn briodol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu

A2 Datblygu rôl pwyllgorau cynrychiolaeth disgyblion i gryfhau eu dylanwad ar waith yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredui fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gymraeg Y Ffin yn gymuned hapus a chynhwysol sy’n blaenoriaethu hybu lles disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n hapus a diogel yno gan wybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw ofid neu bryder. Mae’r amgylchedd dysgu yn ofalgar, ac mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth fuddiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos agweddau cadarnhaol ac aeddfed tuag at eu cyfoedion. Ynghyd â hynny, mae gweithdrefnau’r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd yn gadarn iawn.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol a gofalgar sy’n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a’i hun. Gyda chefnogaeth gadarn y dirprwy ac arweinwyr eraill, mae’n darparu diwylliant cartrefol, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol llwyddiannus i’r ysgol. Er gwaethaf cyfnod ansefydlog diweddar o ran staffio, mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn cael effaith gadarnhaol ar wella dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y sawl sydd ag ADY, yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau ehangach.

Mae arwyddair yr ysgol, sef ‘Dysgu chwilfrydedd, byw gyda pharch, tyfu gyda’n gilydd yn ein cymuned Gymraeg’, yn adlewyrchu’r elfen deuluol a chefnogol sy’n bodoli. Mae hynny’n cyfrannu at feithrin a datblygu dysgwyr annibynnol sy’n barod i fentro’n hyderus o oed cynnar. Cyfoethogir hyn mewn gweithgareddau dysgu awyr agored effeithiol, sef Llun Llanast a Mercher Mwdlyd. Mae gwerthoedd yr ysgol, sy’n seiliedig ar ddarparu profiadau cyfoethog sy’n ysgogi disgyblion, yn treiddio drwy’r ddarpariaeth.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes ar gyfer y disgyblion sydd wedi ei wreiddio’n gelfydd yn y gweithgareddau dysgu. Mae’r profiadau hyn yn adeiladu ar lawer o fedrau disgyblion yn llwyddiannus dros gyfnod ac yn galluogi disgyblion i drosglwyddo eu medrau’n naturiol o un maes o’r cwricwlwm i un arall.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar yn dda. Maent yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus gyda llawer yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd y blynyddoedd uwch. Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau mewn sesiynau iaith. Er hyn, cyfyng yw’r cyfleoedd iddynt ysgrifennu’n estynedig mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’u dealltwriaeth o gysyniadau fathemategol yn hyderus ac yn eu cymhwyso’n briodol mewn amrywiol gyd-destunau. Mae medrau digidol

bron pob disgybl yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion ar frig yr ysgol ddylunio a chreu gwrthrychau gan ddefnyddio argraffydd 3D.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol iawn wrth gyd-gynllunio ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog drwy ddull 'Cwestiynau Mawr'. Mae hyn yn ennyn chwilfrydedd disgyblion a'u hymrwymiad cadarn i'w dysgu. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r modd mae staff yn datblygu medrau creadigol disgyblion.

### Ciplun: Datblygu medrau creadigol disgyblion mewn cyd-destun lleol.

Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd cyfoethog ac estynedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio i gynllunio a chreu darluniau unigryw gan ddefnyddio deunydd ailgylchu sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn creu modelau 3D trawiadol a murlun blynyddol sy'n adlewyrchu eu profiadau a'u hatgofion o'u taith drwy'r ysgol. Mae'r gwaith yn hynod lwyddiannus wrth ddatblygu ystod eang o fedrau disgyblion, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn ogystal â meithrin eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang.

Trwy gynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli, mae athrawon yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at sicrhau bod bron bob disgybl yn garedig ac yn dangos empathi a pharch at ei gilydd ac eraill.

Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad cryf o waith tîm. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r modd y mae staff yn cydweithio i adnabod a chefnogi anghenion disgyblion unigol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn cefnogi pob disgybl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu, sy'n gryfder nodedig o'r ysgol. Mae'r gweithgareddau dysgu yn ymateb yn fwriadus i anghenion yr holl disgyblion.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn drwyadl iawn. Mae arweinwyr yn cydlynu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag ADY. Mae staff yn cynnig darpariaeth gynhwysol ac addas i'r disgyblion sydd ei hangen, gan gynnwys i hybu lles a rheoli emosiynau.

Mae llais y disgybl yn gryf wrth ystyried cyfraniadau tuag at gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae staff yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn eu diddordeb a'u perchnogaeth o'r themâu. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion sy'n cynrychioli'r pwyllgorau gwahanol gyfrannu at fywyd yr ysgol yn ehangach a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r camau nesaf yn natblygiad yr ysgol.

Mae staff yn paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Trosglwyddir gwybodaeth yn llwyddiannus rhwng y sefydliadau amrywiol a'r ysgol, sy'n golygu bod y disgyblion ieuengaf yn llwyddo i ymgartrefu yn fuan. Mae trefniadau pontio

cadarn ar waith sy’n cynnwys ymweliadau a sesiynau ychwanegol i’r plant mwyaf bregus, sy’n eu paratoi'n drylwyr i drosglwyddo i’r sector uwchradd.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn a hynod effeithiol i werthuso cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn ystyried deilliannau’r gweithdrefnau hyn i bennu blaenoriaethau i ysgogi gwelliant. Mae gweithdrefnau gwella’r ysgol yn fanwl ac yn rhoi blaenoriaeth glir i’r materion cywir.

**Ciplun: Grymuso medrau arwain staff i yrru gwelliannau parhaus mewn sefydliad sy’n hunanwella**

Trwy ddatblygu gweithdrefnau arfarnu trylwyr a miniog, mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu yn fanwl gywir. Mae prosesau arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi aeddfedu dros gyfnod byr o amser, ond yn sail gadarn i welliannau cynaliadwy mewn dysgu ac addysgu. Mae systemau arweinyddiaeth ddosranedig hynod effeithiol wedi’u gwreiddio ar draws yr ysgol, gyda rolau arwain clir wedi’u dyrannu’n strategol yn unol â blaenoriaethau gwella. Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant cadarn o hunanfyfyrio proffesiynol ymhlith staff mewn cyfarfodydd datblygiad proffesiynol wythnosol, sy’n eu galluogi i arwain gwelliant o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at welliannau cynaliadwy mewn addysgu, profiadau dysgu a deilliannau disgyblion dros gyfnod.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ‘Tîm Y Ffin’ yn cael cyfleoedd buddiol iawn i ddatblygu’n broffesiynol sy’n gwella ansawdd eu haddysgu a’u galluogi i gyflawni eu rolau yn llwyddiannus a chael effaith gadarnhaol ar ddysgu.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn llwyddiannus ac yn herio’n synhwyrol, lle bo angen. Trwy arsylwi mewn sesiynau, siarad â disgyblion a staff, a thrwy gydweithio’n agos â’r pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er hyn, yn ddiweddar, maent wedi dechrau cydweithio â’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â sefyllfa o orwariant.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2026